RHIFYN
ISSUE
45
15.02.22

Llais Llantrisant

DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

18.02.22 - Plant yn gorffen am wyliau Hanner Tymor
Children finish for Half Term break
28.02.22 - Diwrnod HMS
INSET Day
01.03.22 - Plant yn dychwelyd ar ôl Hanner Tymor
Children return from Half Term
01.03.22 - Dydd Gŵyl Dewi a'r Eisteddfod ysgol
St David's Day and the School Eisteddfod
08.04.22 - Plant yn gorffen am wyliau'r Pasg
Children finish for Easter break



DYDDIADAU'R TYMOR
TERM DATES

Diwrnod olaf Tymor y Gwanwyn eleni fydd 08.04.22 am 3:30 yp. Bydd y plant yn dychwelyd ar gyfer Tymor yr Haf ar 26.04.22. Diwrnod ola'r flwyddyn yw 22.07.22.
Cofiwch ymweld â chalendr gwefan yr ysgol yn rheolaidd i wirio dyddiadau.
The last day of the Spring Term this year is on 08.04.22 at 3:30 pm. The children return for the Summer Term on 26.04.22. The last day of the year is 22.07.22.
Remember to visit the school website calendar regularly to check dates.

HMS 2021-2022
INSET 2021-2022

Eleni, bydd pob ysgol yng Nghymru yn cau am 6 diwrnod HMS.
This year, every school in Wales will close for 6 INSET days.

03.09.21	**28.02.22**
25.04.22	**05.05.22**
+ 2 i'w trefnu / TBA	

RHIANT LYWODRAETHWR
PARENT GOVERNOR

Hoffem groesawu Mrs Angharad Lloyd i'r Bwrdd Llywodraethu wedi iddi gael ei hethol yn ddiweddar. Hefyd, hoffwn ddiolch yn fawr i Mr Johnathan Davies am roi ei hun ymlaen ar gyfer y rôl.
We should like to welcome Mrs Angharad Lloyd to the Governing Body following her recent election. Also, we should like to thank Mr Johnathan Davies for putting himself forward for the role.



YGRhA - DAWNS Y GWANWYN
THE PTA - SPRING BALL

Diolch yn fawr iawn i GRhA yr ysgol am fwrw ymlaen gyda'u trefniadau ar gyfer Dawns Fawreddog y Gwanwyn a gynhelir yng Ngwesty'r Fro ar Fai 14eg.
Ebostiwch yggglantrisantpta@gmail.com os hoffech chi archebu tocyn(nau).
Many thanks to the school's PTA for striving ahead with the arrangements for the Grand Spring Ball which will be held in the Vale Hotel on May 14th.
Email yggglantrisantpta@gmail.com if you would like to order tickets.



PÊL DROED
FOOTBALL

Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl-droed y bechgyn ar ennill cystadleuaeth Yr Urdd yn ddiweddar. Hoffai Mr Euros Jones ganmol y plant ar eu hymddygiad a'u hymroddiad yn ystod y gemau. Siomedig iawn oedd cael clywed nad oedd cystadleuaeth tîm y merched ymlaen heddiw (15.02.22) oherwydd y tywydd garw ond edrychwn ymlaen at ail-drefnu'r gemau hyn.



Congratulations to the boys' football team on their success in the recent Urdd football tournament. Mr Euros Jones would like to praise the children for the way in which they conducted themselves during the day and for their dedication during the matches. We were disappointed to hear that the girls' competition was called off today (15.02.22) due to the inclement weather but we look forward to competing when a new date is arranged.



Chwaraeon

COVID-19 - CANLYNIADAU

COVID-19 - RESULTS

Gofynnir yn garedig i chi hysbysu'r ysgol ar unwaith os bydd plentyn yn derbyn canlyniad positif prawf COVID-19, os gwelwch yn dda. I'n cynorthwyo ni, gofynnir i chi gwblhau'r ffurflen hon i'n hysbysu, os gwelwch yn dda.

We kindly ask that you inform school immediately if your child receives a positive result to a COVID-19 test, please. To assist us, you are asked to complete this form to inform us, please.

SEREN Y SGRÎN!

STAR OF THE SCREEN!



Tybed faint o'n plant ni oedd wedi gweld un o'u ffrindiau, LA, ar y rhaglen 'The Ultimate Playlist' ar CBBC yn ddiweddar?

Cafodd LA lawer o hwyl yn dewis ei hoff gân ar gyfer y rhestr chwarae gyda Rio, cyflwynydd y rhaglen.

I wonder how many of our pupils saw their fellow school mate, LA, on CBBC's 'The Ultimate Playlist' recently?

LA had great fun choosing his favourite song for the playlist with Rio, the programme's presenter.

MAWRTH 1af

MARCH 1st

Gan fod ein Heisteddfod Ysgol yn cael ei chynnal ar Fawrth 1af bellach, gofynnir i'r plant wisgo lliwiau eu llysoedd ar gyfer yr Eisteddfod a byddwn yn dathlu unwaith eto ar Fawrth 2ail trwy wisgo gwisg draddodiadol / dillad coch. Felly dau ddiwrnod llawn hwyl a sbri yr wythnos gyntaf ar ôl hanner tymor!

As our school Eisteddfod now falls on March 1st, we ask that the children wear their team colours for the Eisteddfod and we'll celebrate St David's Day all over again on March 2nd by wearing traditional Welsh costume / red clothes. So, two full days of fun and games the first week back after half term!



LLONGYFARCHIADAU

CONGRATULATIONS



Hoffem longyfarch dau ddisgybl Cyfnod Allweddol 2 ar eu llwyddiant yn y byd chwaraeon y mis hwn. Teithiodd AL i Erddi Soffia, Caerdydd, i gystadlu ym Mhencampwriaeth Trampolîn Ysgolion Cymru. Allan o 5 cystadleuydd arall yn yr un grŵp oedran a lefel, daeth AL yn gyntaf - Gwych!

Hefyd, dyma JD yn cystadlu yn ei dwrnamaint pêl-fasged cyntaf yn cynrychioli 'Pontypridd Panthers'. Clywon ni fod JD wedi chwarae yn arbennig o dda gan sgorio i gyfrannu at y canlyniadau 14-12, 24-3 a 17-16.

Welsh Gymnastics / Gymnasteg Cymru



We should like to congratulate two Key Stage pupils on their success in the sporting world this month. AL travelled to Sophia Gardens, Cardiff, to compete in the Welsh Schools Trampoline Competition. Out of 5 competitors in the same age group and level, AL came first - Fantastic!

Also, JD competed in his first basketball tournament representing 'Pontypridd Panthers'. We learnt that JD played very well and added baskets to the final scores of 14-12, 24-3 and 17-6 .

EISTEDDFOD YR URDD 2022

THE URDD EISTEDDFOD 2022

Os oes awydd cystadlu ar eich plentyn yn Eisteddfod yr Urdd eleni, cofiwch fwrw golwg ar y llythyr a ebostiwyd atoch chi yr wythnos ddiwethaf gyda holl fanylion y cystadlaethau. Hefyd, bwrwch olwg dros y dudalen hon ar wefan yr ysgol.

If your children would like to compete in the Urdd Eisteddfod this year, remember to have a read of the letter which reached your email inboxes last week with all the details regarding the competitions. Also, have a look at this page on the school website.

Mae'r plant yn brysur iawn yn y dosbarthiadau yn paratoi at ein Heisteddfod Ysgol a gynhelir ar Fawrth y 1af .

The children are busily preparing for our School Eisteddfod which will be held on March 1st.

Urdd 100 1922 - 2022

THEATR SPECTACLE

SPECTACLE THEATRE







Diolch yn fawr iawn i Theatr Spectacle am gyflwyno drama ac am gynnal gweithdy gyda phlant Blwyddyn 6 yn ddiweddar i drin a thrafod emosiynau a theimladau.

Many thanks to Spectacle Theatre for their performance and workshop with Year 6 recently to discuss emotions and feelings.

COVID19

CANLLAWIAU HUNANYNYSU

COVID19

SELF-ISOLATION GUIDANCE





Fel y gwyddoch, rwy'n siwr, mae'r sefyllfa bresennol a'r canllawiau presennol ynghylch achosion positif o COVD19 a'r rheolau hunanynysu yn newid yn rheolaidd. Felly, defnyddiwch y ddolen hon i sicrhau eich bod yn derbyn y canllawiau diweddaraf os oes angen cyfeirio atynt. Yn ogystal, mae llu o wybodaeth ar dudalen hon gwefan yr Awdurdod Lleol.

As you will be aware, I'm sure, the current situation and guidance regarding positive cases of COVID19 and the self-isolation guidance changes regularly. So, please follow this link to ensure that you have the most up to date guidance should you need to refer to it. There is also a wealth of information on this page of the Local Authority's website.